**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

# DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014

## GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PARTH YFED A REOLIR GAN GYNNWYS PARTHAU LLE GWAHERDDIR DEFNYDDIO SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL) 2024 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Drwy arfer ei bwerau o dan Adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ('y Ddeddf'), mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y Cyngor') yn gwneud y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus canlynol:

1. Enw'r Gorchymyn yma yw "Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Parth yfed a reolir gan gynnwys parthau lle gwaherddir defnyddio sylweddau meddwol gan gynnwys alcohol) 2024 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf" (y "Gorchymyn")

2. Bydd y Gorchymyn yma'n dod i rym ar 1 Hydref 2024 ac yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad hwnnw.

3. Mae'r Gorchymyn yma'n creu parth yfed a reolir ar draws Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (byddwn ni'n cyfeirio at hyn fel "Parth Yfed a Reolir" o hyn ymlaen) ac ardaloedd fydd yn "Barthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol" (a fydd yn cynnwys canol trefi Pontypridd ac Aberdâr. Mae lleoliad / ffin y parthau yma wedi'u hamlinellu â llinell goch ar y cynllun sydd ynghlwm wrth Atodlen 1 i'r Gorchymyn yma).

4. Wrth wneud y Gorchymyn yma, mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau canlynol, sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf, wedi'u bodloni fel a ganlyn:-

   a) Mae gweithgareddau sydd wedi'u cynnal yn y Parth Yfed a Reolir (sy'n cynnwys y Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol) o ganlyiad i'r defnydd o sylweddau meddwol, wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rheiny yn yr ardal, ac mae'n debygol y bydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal yn yr ardal honno a chael effaith o'r fath: ac

   b) y bydd effaith neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn gyson neu'n barhaus, i'r graddau y byddan nhw'n afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi gan y Gorchymyn yma.

**TROSEDDAU**

5. Effaith y Gorchymyn yma yw gorfodi'r amod canlynol o fewn y Parth Yfed a Reolir:

   (i) Gwahardd ar unrhyw adeg unrhyw berson(au) mewn man cyhoeddus sy'n yfed/cymryd alcohol neu sydd â chynhwysydd alcohol, sydd heb esgus rhesymol, yn parhau i yfed/cymryd alcohol, neu'n methu ag ildio alcohol meddwol pan fydd

Swyddog Awdurdodedig yn gofyn iddo wneud hynny, oni bai fod eithriad sy'n cael ei restru yn 7. isod i'r Gorchymyn yma'n gymwys.

6. Effaith y Gorchymyn yma yw gorfodi'r amod canlynol o fewn y Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol:

(i) Gwahardd ar unrhyw adeg unrhyw berson(au) rhag yfed/cymryd, llyncu, mewnanadlu, chwistrellu, ysmygu neu ddefnyddio Sylweddau Meddwol mewn man cyhoeddus oni bai fod eithriad sy'n cael ei restru yn 6(iii) neu 7. i'r Gorchymyn yma'n gymwys.

(ii) Mae "Sylweddau Meddwol" yn golygu sylweddau sydd â'r gallu i ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog (ac mae'n cynnwys alcohol a'r hyn y cyfeirir atyn nhw yn gyffredinol fel 'anterthau cyfreithiol').

(iii) Mae eithriadau'n berthnasol mewn achosion lle mae'r Sylweddau Meddwol yn cael eu defnyddio at ddibenion dilys a meddyginiaethol (a bod modd profi hyn); yn cael eu rhoi i anifeiliaid fel meddyginiaeth, yn sigarennau (tybaco) neu anweddwyr (vaporisers) neu'n fwydydd wedi'u rheoleiddio gan ddeddfwriaeth Bwyd, Diogelwch ac Iechyd.

(iv) Bydd personau o fewn y Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol sy'n torri'r gwaharddiad yn 6(i) o'r Gorchymyn yma yn ildio'r holl Sylweddau Meddwol sydd yn eu meddiant ac yn eu rhoi i Swyddog Awdurdodedig.

7. Eithriadau

(i) Dydy'r gwaharddiadau yn 5(i) a 6(i) (mewn perthynas ag yfed/cymryd alcohol) o'r Gorchymyn yma ddim yn berthnasol i weithgareddau o'r fath mewn:

(a) safle (heblaw safle sy'n cael ei weithredu gan y Cyngor) sydd â thrwydded ar gyfer cyflenwi alcohol;

(b) safle sydd â thystysgrif safle clwb sy'n rhoi hawl iddo gyflenwi alcohol;

(c) man o fewn ffiniau'r safle ym mharagraff 7(i)(a) neu 7(i)(b);

(d) safle a all, drwy rinwedd Rhan 5 Deddf Trwyddedu 2003 (y "Ddeddf Trwyddedu") gael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol (ar yr adeg berthnasol) neu a allai fod wedi'i ddefnyddio yn y modd yma drwy rinwedd y Rhan honno o fewn 30 munud cyn yr adeg honno;

(e) man lle mae cyfleusterau neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu neu yfed/cymryd alcohol yn cael caniatâd i wneud hynny ar yr adeg berthnasol drwy rinwedd adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980 (defnydd sy'n ymwneud â phriffyrdd); a

(f) safle sy'n cael ei weithredu gan y Cyngor pan fydd y safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol, neu

cyn pen 30 munud o ddiwedd y cyfnod pan oedd y safle wedi cael ei ddefnyddio i gyflenwi alcohol.

8. At ddibenion y Gorchymyn yma:

Ystyr "Swyddog Awdurdodedig" yw plismon, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu berson y mae'r Cyngor wedi ei awdurdodi at ddibenion gorfodi'r Gorchymyn yma;

Mae ystyr "tystysgrif safle clwb" wedi'i nodi yn adran 60 o'r Ddeddf Trwyddedu;

Mae ystyr "tystysgrif safle" wedi'i nodi yn adran 11 o'r Ddeddf Trwyddedu;

Mae ystyr "cyflenwi alcohol" wedi'i nodi yn adran 14 o'r Ddeddf Trwyddedu; ac

mae safleoedd yn "safleoedd trwyddedig wedi'u gweithredu gan y Cyngor" os oes tystysgrif safle gyda nhw sy'n eu caniatáu i gyflenwi alcohol a -

(a) deiliad y drwydded yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r safle (neu ran o'r safle) yn sefyll yn ardal y Cyngor yma, neu

(b) ddeiliad y drwydded yw person arall ond mae'r safle yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu'n cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, neu ar ei ran.

9. Mae'n drosedd i berson wneud unrhyw weithgaredd sydd wedi ei wahardd o dan y Gorchymyn yma, neu fethu â chydymffurfio â gofyniad sy'n berthnasol iddo o dan y Gorchymyn yma.

**COSBAU**

10. Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Gorchymyn yma yn agored i euogfarn ddiannod a dirwy nad yw'n uwch na lefel 2 o'r raddfa safonol.

11. Caiff Swyddog Awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i berson sy'n torri'r Gorchymyn yma, a fydd yn gyfle iddo gael ei ryddhau o fod yn agored i euogfarn o'r drosedd, os bydd yn talu cosb benodedig.

SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

a osodwyd yma ger bron

......................................................

Andrew Wilkins

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol


# ATODLEN 1

## PARTHAU LLE GWAHERDDIR SYLWEDDAU MEDDWOL

**Mapiau o Ganol Trefi Aberdâr a Phontypridd sy'n dangos ffiniau'r Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol gyda llinell goch.**

# Canol Tref Aberdâr
# Aberdare Town Centre

RHONDDA CYNON TAF




## Hysbysiad Cyfreithiol / Legal Notice

R H O N D D A   C Y N O N   T A F

**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PARTH YFED A REOLIR GAN GYNNWYS PARTHAU LLE GWAHERDDIR DEFNYDDIO SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL) 2024 DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014**

**(CONTROLLED DRINKING ZONE INCLUDING EXCLUSION ZONES FOR THE CONSUMPTION OF INTOXICATING SUBSTANCES INCLUDING ALCOHOL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2024 ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014**

Effaith y Gorchymyn yma yw gorfodi'r amod canlynol o fewn y **Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol**:

1. Gwahardd ar unrhyw adeg unrhyw berson(au) rhag yfed/cymryd, llyncu, mewnanadlu, chwistrellu, ysmygu neu ddefnyddio **Sylweddau Meddwol** mewn man cyhoeddus oni bai fod eithriad sy'n cael ei restru yn 6(iii) neu 7. i'r Gorchymyn yma'n gymwys.
2. Mae "**Sylweddau Meddwol**" yn golygu sylweddau sydd â'r gallu i ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog (ac mae'n cynnwys **alcohol** a'r hyn y cyfeirir atyn nhw yn gyffredinol fel '**anterthau cyfreithiol**').
3. Mae eithriadau'n berthnasol mewn achosion lle mae'r **Sylweddau Meddwol** yn cael eu defnyddio at ddibenion dilys a meddyginiaethol (a bod modd profi hyn); yn cael eu rhoi i anifeiliaid fel meddyginiaeth, yn sigarennau (tybaco) neu anweddwyr (vaporisers) neu'n fwydydd wedi'u rheoleiddio gan ddeddfwriaeth Bwyd, Diogelwch ac Iechyd.

Bydd personau o fewn y Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol sy'n torri'r gwaharddiad yn 6(i) o'r Gorchymyn **yma yn ildio'r holl Sylweddau Meddwol** sydd yn eu meddiant ac yn eu rhoi i Swyddog Awdurdodedig.

The effect of this Order is to impose the following condition within the **Intoxicating Substance Exclusion Zones**:

1. A prohibition at any time on any person(s) to consume, ingest, inhale, inject, smoke or otherwise use **Intoxicating Substances** in a public place unless an exemption listed in 6(iii) or 7. to this Order applies.
2. "**Intoxicating Substances**" means substances with the capacity to stimulate or depress the central nervous system (and includes **alcohol** and what are commonly referred to as '**legal highs**').
3. Exemptions apply in cases where the **Intoxicating Substances** are used for; a valid and demonstrable medicinal use; given to an animal as a medicinal remedy; are cigarettes (tobacco) or vaporisers or are food stuffs regulated by Food, Health and Safety legislation.

Persons within the Intoxicating Substance Exclusion Zones who breach the prohibition at 6(i) of this Order **shall surrender all Intoxicating Substances** in his/her possession to an Authorised Officer.

Parthau lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol
Intoxicating Substance Exclusion Zone


Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100023458
Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023458

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**http://fymhethau.rctcbc.gov.uk/**

For further information, please visit:
**http://my.rctcbc.gov.uk**

# Canol Tref Pontypridd
# Pontypridd Town Centre

RHONDDA CYNON TAF




## Hysbysiad Cyfreithiol / Legal Notice

RHONDDA CYNON TAF

**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PARTH YFED A REOLIR GAN GYNNWYS PARTHAU LLE GWAHERDDIR DEFNYDDIO SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL) 2024 DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014**

**(CONTROLLED DRINKING ZONE INCLUDING EXCLUSION ZONES FOR THE CONSUMPTION OF INTOXICATING SUBSTANCES INCLUDING ALCOHOL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2024 ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014**

Effaith y Gorchymyn yma yw gorfodi'r amod canlynol o fewn y **Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol**:

1. Gwahardd ar unrhyw adeg unrhyw berson(au) rhag yfed/cymryd, llyncu, mewnanadlu, chwistrellu, ysmygu neu ddefnyddio **Sylweddau Meddwol** mewn man cyhoeddus oni bai fod eithriad sy'n cael ei restru yn 6(iii) neu 7. i'r Gorchymyn yma'n gymwys.
2. Mae "**Sylweddau Meddwol**" yn golygu sylweddau sydd â'r gallu i ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog (ac mae'n cynnwys **alcohol** a'r hyn y cyfeirir atyn nhw yn gyffredinol fel '**anterthau cyfreithiol**').
3. Mae eithriadau'n berthnasol mewn achosion lle mae'r **Sylweddau Meddwol** yn cael eu defnyddio at ddibenion dilys a meddyginiaethol (a bod modd profi hyn); yn cael eu rhoi i anifeiliaid fel meddyginiaeth, yn sigarennau (tybaco) neu anweddwyr (vaporisers) neu'n fwydydd wedi'u rheoleiddio gan ddeddfwriaeth Bwyd, Diogelwch ac lechyd.

Bydd personau o fewn y Parthau Lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol sy'n torri'r gwaharddiad yn 6(i) o'r Gorchymyn **yma yn ildio'r holl Sylweddau Meddwol** sydd yn eu meddiant ac yn eu rhoi i Swyddog Awdurdodedig.

The effect of this Order is to impose the following condition within the **Intoxicating Substance Exclusion Zones**:

1. A prohibition at any time on any person(s) to consume, ingest, inhale, inject, smoke or otherwise use **Intoxicating Substances** in a public place unless an exemption listed in 6(iii) or 7. to this Order applies.
2. "**Intoxicating Substances**" means substances with the capacity to stimulate or depress the central nervous system (and includes **alcohol** and what are commonly referred to as '**legal highs**').
3. Exemptions apply in cases where the **Intoxicating Substances** are used for; a valid and demonstrable medicinal use; given to an animal as a medicinal remedy; are cigarettes (tobacco) or vaporisers or are food stuffs regulated by Food, Health and Safety legislation.

Persons within the Intoxicating Substance Exclusion Zones who breach the prohibition at 6(i) of this Order **shall surrender all Intoxicating Substances** in his/her possession to an Authorised Officer.

Parthau lle Gwaherddir Sylweddau Meddwol
Intoxicating Substance Exclusion Zone


Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100023458
Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023458


Am ragor o wybodaeth, ewch i:
**http://fymhethau.rctcbc.gov.uk/**

For further information, please visit:
**http://my.rctcbc.gov.uk**